COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 28 CHWEFROR 2018, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd PA Davies – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | RJ Collins | HJ David | P Davies |
| SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie | T Giffard |
| RM Granville | CA Green | DG Howells | A Hussain |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis |
| JR McCarthy | Cyng | RL Penhale-Thomas | AA Pucella |
| JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | G Thomas |
| T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables | SR Vidal |
| MC Voisey | LM Walters | CA Webster | DBF White |
| PJ White | A Williams | AJ Williams | HM Williams |
| JE Williams | RE Young | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MC Clarke, N Clarke, RM James, B Jones, DG Owen a/ac RME Stirman

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Dros Dro) |
| Andrew Jolley | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaethiol |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |

127. DATGANIADAU BUDD

Datganodd y Swyddogion canlynol fudd mewn eitem Agenda 13. Gadawodd Swyddogion JNC y cyfarfod tra oedd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried:-

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Addysg a Chefnogaeth Teuluol
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cefnogaeth Gweithredol a Phartneriaeth
Pennaeth Cyllid Dros Dro

128. CADARNHAU COFNODION

WEDI'I DATRYS: Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 31 Ionawr 2018 yn gywir, yn amodol ar y gair 'Neuadd' yn nhrydedd llinell rhif Cofnodion 113, yn cael ei newid i 'Cyngor'.

129. I DDERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

Y Faeres

Cyhoeddodd y Faeres iddi fynychu 'Sandville' Porthcawl yn ddiweddar, lle roedd gwasanaeth blynyddol diolchgarwch. Ariannir Sandville gan roddion elusennol yn unig. Rhoir seibiant i'r teuluoedd y rhai sydd wedi bod yn mynd yno ers mwy na 30 mlynedd a chynnig sawl fath o therapi a thriniaeth yno. Mae hi ar agor i'r cyhoedd a gall unigolion gymryd rhan mewn cyfres o
driniaethau megis Reike a Massage am rodd i Sandville. Roedd yn lle ysbrydoledig i'w weld gyda dros 100 o wirfoddolwyr yn gweithio yno, ac mae nifer ohonynt wedi bod yn helpu yno ers dros 30 mlynedd. Roedd awyrgylch hyfryd yn y lle gyda gogwydd teuluol cryf.

Cadarnhaodd y Faeres ei bod yn falch i fynychu agoriad Canolfan Glywed yn Boots (Fferyllfa) ar Stryd Caroline, lle gallai unrhywun drefnu apwyntiad a chael prawf clywed am ddim. Gall pawb dderbyn cyngor am unrhyw broblemau clywed a gweld yr holl dechnoleg ac offer diweddar sydd ar gael.
Ymwelodd y Faeres â Chanolfan y Mileniwm hefyd yng Nghaerdydd ar gyfer Gwobrau Dewi Sant a gweld y terfynwyr yn derbyn Tystysgrifau a phinnau. Daeth y terfynwyr o bob lliw a llun mewn categorïau gwahanol, megis dewrder, gwaith yn y gymuned, ayyb. Bydd Seremoni Gwobrwyo ar gyfer y terfynwyr ym Mawrth.

Mynychodd hi Ddawns yr Uchel-Siryf yn y Vale Resort, lle codwyd £4,500 ar y noson gydag Ocsiwn a Raffl. Gosododd yr Uchel-Siryf darged o £10,000, a dywedodd y Faeres iddi obeithio y bydd e'n ei chyrraedd erbyn i'w flwyddyn yn dod i ben yn Ebrill. Mae Lamau yn elusen ar gyfer y digartref.
Dywedodd y Faeres iddi glywed rhai hanesion bywyd go iawn lle mae pobl wedi troi eu bywydau rownd mewn ffordd gadarnhaol. Eto, mae'r gwirfoddolwyr a'r staff sy'n gweithio gyda'r digartref yn dîm ymrwymedig a roedd eu hymroddiad yn hollol amlwg ar y noson. Dymunodd hi bob lwc iddynt ar gyfer y dyfodol, er mwyn sicrhau bod neb yn gorfod cysgu ar y strydoedd mewn rhai o'r tywydd gwaethaf a gafwyd yn y 30 mlynedd diwethaf.

Cadarnhaodd y Faeres ei bod yn falch i fynychu Lansiad Dementia ym Mhafiliwn Porthcawl, lle cafwyd nifer o siaradwyr a'r cyflwyniad PowerPoint. Atgoffodd hi bob Cynghorydd i fynd i'r wefan ac ymrestru ar gyfer yr hyfforddiant cefnogi Dementia gyda'r bwriad o fynd ymlaen i fod yn Bencampwr er mwyn i'r hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y salwch ofnadwy hwn gael eu rhannu drwy'r Sir, a gwneud i bobl yn ymwybodol am beth i edrych amdani gyda ffrindiau a pherthnasau, gan fod y salwch yn gallu effeithio unrhywun o bob lliw a llun. Nid yw'r salwch yn gwahaniaethu.
Mynychodd y Faeres Sioe Gerdd 'Carousel' a berfformiwyd gan Theatr Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr yn Mhafiliwn Porthcawl. Roeddent yn broffesiynol iawn a roedd y canu a'r dawnsio yn ddifyr iawn. Rhodd ddiolch i'r cast, y bobl yn gweithio tu ôl i'r llenni, y rhieni a theidiau a neiniau, a phawb a gefnogodd y sioe gerdd rhagorol hon.

Yn olaf, cynghorodd y Faeres iddi fynychu te prynhawn elusennol yng Ngwesty Heronston, lle perfformiodd BYT ganu a'r dawnsio gyda chaneuon o'r Sioeau. Teimlodd fod y dalent lleol yn ysbrydoledig a roedd pob un yn glod i ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Dirprwy Arweinydd

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i ymddangos yn flaenllaw gan BBC Breakfast News fel rhan o'i sylw wedi'i gynllunio i bwysleisio ffigyrau ailgylchu newydd y DU.

Mae'r ffigyrau newydd hyn wedi datgelu bod Cymru yn gwneud yn well na Lloegr, Yr Alban a'r Iwerddon, a bod y BBC wedi dewis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel enghraifft dda o sut mae'n bosib nid yn unig i fwrw targedau ailgylchu newydd, ond i'w rhagori yn gyfan gwbl.

Mewn gwirionedd, mynegodd y cyflwynydd "Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn cyrraedd lefelau a all rhannau eraill o'r DU ond yn breuddwydio amdani."

Cyfwelwyd dau drigolyn lleol ar hap, gyda'r ddau o blaid y cynllun, a chynhwysodd y cyfweliad ddangosiad am sut mae'r cynllun y gweithio, fideos bywluniedig, ystadegau lleol a mwy.

Roedd hyn yn gyfle gwych i gyrraedd cynulleidfa fawr iawn yn sicr, a roedd e'n wrth ei fodd gweld darn mor gadarnhaol wedi'i adrodd.

<u>Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Addysg a Chefnogaeth Teuluol</u>
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro – Addysg a Chefnogaeth Teuluol, fod penderfyniad wedi'i wneud i gau bob ysgol yn y Bwrdeistref Sirol yr wythnos hon ar ddydd Iau a dydd Gwener, oherwydd yr eira a ragwelwyd ar gyfer De Cymru.

Cymerwyd y penderfyniad hwn ar sail Iechyd a Diogelwch disgyblion, rhieni a'r staff dysgu. Ychwanegodd y byddai hyn yn gymwys, oni bai bod diweddariadau ychwanegol yn dweud yn wahanol.

<u>Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio</u>
Roedd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio yn sicr y byddai'r Aelodau wedi nodi'r rownd diweddaraf o wybodaeth categoreiddio ysgolion a roddwyd gan Llywodraeth Cymru, gyda'r categoreiddio hwn yn seiliedig ar sawl criteria gan gynnwys anghenion cefnogi, a bod ysgolion yn cael eu grwpio yn wyrdd, melyn, ambr neu goch. Dangosodd hwn fod 38 allan o 48 ysgolion cynradd a 7 allan o 9 ysgolion uwchradd wedi cael eu categoreiddio yn derbyn naill ai cefnogaeth 'gwyrdd' neu 'melyn' ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae pob un o'r tair ysgol arbennig a'r uned cyfeirio disgyblion wedi cael eu categoreiddio yn 'gwyrdd' neu 'melyn'.

Mae wyth o ysgolion cynradd wedi cael eu rhoi yn y categori 'ambr', a mae dwy yn y categori 'coch'. Mae dwy o'r naw ysgolion uwchradd hefyd yn y categori 'ambr', a dim ysgol wedi'i rhoi yn y categori 'coch'.

Roedd e'n falch i weld y Bwrdeistref Sirol yn parhau i ddangos patrwm o welliant ar y cyfan, ac ystyriwn yr adroddiad yn fwy manwl yn edrych ar sut gallwn ni a'n partneriaid yng Ngwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De weithio gyda'r holl ysgolion lleol i gynnig help a chefnogaeth.

Soniodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio yn fras fod Adeilad Jennings ym Mhorthcawl wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobr genedlaethol fawr ei bri gan Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Wedi'i enwebu yn y categori Rhagoriaeth mewn Cynllunio ar gyfer Treftadaeth a Diwylliant, byddai'r Adeilad yn cystadlu yn erbyn prosiectau megis Sill National Landscape Discovery Centre, a'r gwaith adnewyddu ar adeilad rhestredig Gradd II y Darlington Hippodrome. Roedd yn gyflawniad enfawr yn ei hun i'w enwebu yn y cynllun hwn 40 mlwydd oed, a roedd e'n siŵr y byddai'r Aelodau yn croesi bysedd ar gyfer mis Mai pan fydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi. Cyhoeddodd wedyn efallai na fyddai Aelodau newydd yn ymwybodol inni gael newyddion tebyg ynglŷn ag un o'n trefi Sirol eraill ni, Pencoed, rai misoedd yn ôl.

Adeiladwyd Prosiect Tai Fforddiadwy gan Jehu Ltd ar Heol y Geifr, hen safle Bayswater Tubes. Roedd hyn yn gynllun £5 miliwn ar ran Cymdeithas Tai Hafod. Mae'r LABC yn gorff yn cynrychioli timau rheoli adeiladu pob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr. Yng Ngwobrau LABC Cymru, enillodd datblygiad Pencoed wobr "Datblygiad Tai ar raddfa fawr gorau", ac enillodd Glyn Rees wobr ar gyfer y Goruchwyliwr Safle gorau. Teimlodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio fod hyn yn newyddion gwych ar gyfer y Bwrdeistref Sirol.

Aelod Cabinet - Cymunedau

Roedd yr Aelod Cabinet Cymunedau eisiau sôn bod yr wythnos hon wedi nodi Diwrnod Ymwybyddiaeth Tlodi Tanwydd er mwyn amlygu'r angen i wneud mwy yn sicrhau bod pobl ar draws y DU yn gallu fforddio byw bywydau cynhesach, iachach a hapusach.

Trefnir y diwrnod ymwybyddiaeth gan yr elusen National Energy Action, a maent wedi cydnabod ein hymdrechion gan gyflwyno gwobr i'r Cyngor am ei brosiect dŵr pwll glo Caerau, fel y gwyddoch fydd yn ceisio helpu i leihau biliau tanwydd i hyd at fil o gartrefi yng Nghwm Llynfi. Rhodd ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig â hwn.

Fel y mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn nhraeth tref Porthcawl, cymerodd e ran mewn cyfweliad gyda ITV am y prosiect ddydd Iau diwethaf yn pwysleisio sesiwn wybodaeth y cyhoedd galw heibio diweddar a drefnwyd gan y contractwyr, Alun Griffiths.

Mynychodd llawer y sesiwn yn cynnig golwg cyntaf i bobl weld darlun arlunydd o sut y bydd y gwaith terfynol yn edrych. Credodd fod y sesiwn wedi cael ei derbyn yn dda iawn.

Roedd e'n edrych ymlaen at weld y prosiect yn datblygu, a chredodd fod hyn yn mynd i fod yn ddatblygiad arall o bwys eithriadol ym Mhorthcawl.
Yn olaf, gofynnodd yr Aelod Cabinet Cymunedau i'r Aelodau ymuno ag ef yn rhoi diolch i'r Adran Priffyrdd am ei gwaith ardderchog yn grudio'r ffyrdd yn golygu bod ffyrdd ar y prif rhwydwaith ffyrdd wedi aros ar agor yn y dyddiau diwethaf yn ystod y tywydd garw. Hefyd, gyda thywydd gwaeth yn ddisgwyliedig yn y dyddiau nesaf, anfonodd e neges ar ran y Cyngor o'i gefnogaeth a gwerthfawrogiad yng ngoleuni gofynion cynyddol a roid arnynt yn ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn.

Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod Porthcawl, Mynydd Cynffig, Y Pîl, a Chorneli wedi dod yn ardaloedd diweddaraf sy'n deall dementia ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae mwy na 1,500 o bobl o fusnesau, siopau, eglwysi, ysgolion a sefydliadau gwirfoddol lleol wedi cytuno i fod yn rhan o'r cynllun Addas i Bobl â Dementia.

Datblygwyd y cynllun fel partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, BAVO a'r Gymdeithas Alzheimer a chroesawyd y cynllun gan y cynghorau tref a'r cynghorau cymunedol lleol.

Mae'r lansiad yn dilyn llwyddiant cynllun blaenorol a sefydlwyd yng nghanol tref Maesteg yn 2016, a roedd e'n wrth ei fodd gweld rhagor o gymunedau yn yr ardal yn mabwysiadu'r fenter Addas i Bobl â Dementia.
Efallai byddai'n syniad i aelodau roi gwybod i'w hetholwyr am y bathodynnau a sticeri 'Ffrindiau Dementia' sydd ar gael yn lleoedd sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

I gloi dywedodd y gallai Aelodau, gan fod yr awdurdod yn rhan o'r cynllun Addas i Bobl â Dementia, gofrestru eu hunain fel Cynghorwyr Ffrindiau Dementia ar eu pen eu hunain.

Gallai drefnu bod hwn yn cael ei wneud mewn grwpiau gyda Swyddogion priodol. Dangosodd ymrwymiad i gwblhau'r gwaith hwn.

Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau Dyfodol
Hysbysodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau Dyfodol i'r Aelodau, gan fydd cyllideb y flwyddyn nesaf yn cael ei thrafod yn fuan, byddent yn falch i glywed bod ein partneriaeth gyfredol yn parhau i ddod â buddsoddiadau newydd er gwaetha'r heriau a wynebir.

Y tro hwn, mae gwaith gwella o werth £200,000 wedi cael ei wneud mewn canolfannau hamdden lleol ym Mhencoed, Y Pîl, Ynysawdre a Maesteg.
Mae'r gwelliannau yn amrywio o wella safleoedd i ddarparu cit newydd ac offer hyfforddi cardiofasgwlaidd arbenigedd.

Mae mwy o waith gwella wedi'i gynllunio ar gyfer y misoedd i ddod, ac felly mae'n wych gweld bod y partneriaeth yn darparu pobl lleol gyda mynediad i gyfleusterau a fydd yn eu helpu at fyw yn iach ac yn actif.

130. I DDERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod sgwrsio yn mynd yn ei flaen rhwng Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac Arweinwyr Cyngor a'r Gymdeithas Llywodraeth Cymru, ynglŷn â datganiad yr Ysgrifennydd am ail-drefnu llywodraeth leol. Ychwanegodd fod yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, byddai ymateb cyntaf y Cyngor yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf yr Arweinwyr Grŵp, a bod y WLGA yn bwriadu ysgrifennu at yr Ysgrifennydd yn amlinellu ymateb ar y cyd gan yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.

Hysbysodd hefyd efallai byddai'r Aelodau yn dymuno atgoffa eu hetholwyr am linellau terfyn rhai ymgynghoriadau pwysig a redir ar hyn o bryd. Mae'r ymgynghoriad cyntaf yn gynnig ar gyfer dosbarth newydd ar gyfer plant Awtistaidd yn Ysgol Gynradd Pencoed. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 23 Mawrth 2018.

Bydd ymgynghoriad arall, ychydig o ddyddiau yn hwyrach, am dynnu cymorthdaliadau o rhai ffyrdd masnachol bysiau hefyd yn dod i ben ar 26 Mawrth. Yn olaf, bydd yr ymgynghoriad am Doiledau Cyhoeddus yn dod i ben.

Mae pob un o'r ymgynghoriadau yn dod â llawer o sylwadau, a gall unrhywun sydd eisiau mynegi barn yn gwneud hyn drwy ymweld â thudalennau ymgynghori'r Cyngor.

Mae'r dogfennau ar gael ar ffurf bapur a mewn ffurfiau eraill gan gysylltu â'r Tîm Ymgynghori'r Cyngor.

Yn olaf, dywedodd yr Arweinydd fod yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio a'i yntau wedi cael y fraint o gael eu gwahodd i'r seremoni swyddogol yn cau Ysgol Gynradd Brynmenyn. Roedd yn brofiad emosiynol gan mai hwn oedd y diwrnod olaf yn yr hen adeilad, ond roedd hefyd yn garreg filltir cyffrous a phennod newydd oherwydd bod adeilad newydd sbon gan yr ysgol erbyn hyn a agorwyd yr wythnos honno. Roedd e felly yn falch iawn am hwn, fel yr oedd y staff, llywodraethwyr ysgol, disgyblion a rhieni, oherwydd eu bod yn hapus yn astudio mewn Ysgol yr 21ain Ganrif. Roedd e'n sicr y byddai'r Aelodau i gyd yn adleisio ei farn am hyn, yn cytuno bod yn bwysig iawn i'r Awdurdod edrych ar ffordd i ddarparu'r cyfleoedd addysg gorau posib i'r holl blant yn ysgolion y Bwrdeistref Sirol.

131. GWAHODDIAD I BARATOI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD (LDP) DE DDWYRAIN CYMRU – GORLLEWIN, A GWAHODDIAD I AWDURDODAU CYNLLUNIO LLEOL I BARATOI CYNLLUN DATBLYGU STRATEGOL (SDP).

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Grŵp adroddiad ar ran y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn trafod ymateb y llythyrau gan yr Ysgrifennydd Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig – Lesley Griffiths AC a dderbyniwyd ar 13 Rhagfyr 2017, ynglŷn â'i gwahoddiad i ymgymryd â Chynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd (LDP) a Chynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol (SDP).

Ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd, roedd y llythyr yn gwahodd i'r Cyngor roi ystyriaeth ddifrifol at baratoi cynllun ar y cyd gyda RhCT a Caerffili. Roedd y rhesymau tu ôl y gofyn hwn yn bennaf yn gysylltiedig â chyfleoedd adnoddau gwell, mwy o weithredu a chyfundrefn gynllunio mwy gyfunedig er nad oes tystiolaeth wedi'i chyflwyno i gefnogi'r farn hon.

Ychwanegodd fod y llythyr ynglŷn â'r SDP yn debyg yn gwahodd i awdurdodau cynllunio lleol baratoi cynllunio strategol ar gyfer y 3 ôl-troed rhanbarthol, a fyddai'n, yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, ymgyfuno â Dinas-Ranbarth Caerdydd. Byddai'r SDP ar lefel ar wahân ar gynllun datblygu a fydd yn sefyll uwchben y LDP. Byddai'r SDP, wedi'i osod, yn caniatáu LDPs 'mewn drafft' i gael eu cynhyrchu.

Roedd yr Ysgrifennydd wedi gofyn am ymatebion cadarnhaol i'r gwahoddiad gael eu cyflwyno erbyn 28 Chwefror 2018. Ni fydd Llywodraeth Cymru (WG), tan bryd hynny, yn cytuno i unrhyw gynllun unigol yn cael ei symud ymlaen. Mae gan y WG bŵer i gyfarwyddo Awdurdodau Cynllunio Lleol (LPAs) i gynhyrchu cynlluniau datblygu gan gynnwys cynlluniau ar y cyd.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wastad wedi cael sylw cyson i'w cynlluniau datblygu a mae rhain wedi bod yn llwyddiannus yn cyflawni twf.

Roedd derbyn y llythyrau hyn yn weddol annisgwyl. Gwelir, yng nghynnwys y llythyrau, goblygiadau cyrhaeddbell ar gyfer y LPAs o ran cynhyrchu cynlluniau datblygu yn awtonomaidd, a byddai'n ymddengys i ymwahanu oddi wrth gyfeirio at deithio ar gyfer datblygu fel a drafodir gyda swyddogion WG tan bryd hynny.

Cynghorodd y Rheolwr Datblygu Grŵp fod elfen o gytuno gyda phwyntiau'r Ysgrifennydd yn y llythyrau, e.e. byddai'n well i'r system gynllunio gyflwyno weledigaeth strategol a defnydd tir lleol ar gyfer y rhanbarth a'r Bwrdeistref Sirol, ac i sicrhau bod y datblygu iawn yn cael ei wneud yn y lle iawn. Serch hynny, mae pryder ynglŷn â dull LDP ar y cyd a drafodir yn fanwl yn yr adroddiad a'r atodiadau atodedig.

Awgryma'r llythyrau na fyddai LPAs yn gallu symud ymlaen gyda'u LDP eu hunain tan fod y llythyrau yn arwain at oblygiadau sylweddol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr gan ystyried y rheidrwydd i ddechrau gwaith yn syth ar Adolygiad o'i LDP a fydd yn dod i ben yn 2021. Mae perygl na fyddai cynllun ar y cyd yn cael ei gyflwyno erbyn y dyddiad hwn yn arwain i 'gwactod polisi'. Mae cynllun datblygu cyfredol yn bwysig ar gyfer arwain datblygu cynaliadwy ac i hyrwyddo cyfleoedd buddsoddi ac atal datblygu anaddas rhag ddigwydd.

O ran yr adroddiad, ystyrir yr opsiynau canlynol:-

1. Paratoi SDP yn unig heb unrhyw adolygiadau unigol o'n LDP cyfredol tan fod y SDP yn cael ei fabwysiadu.
2. Adolygiad Unigol o'r LDP gan weithio gyda'r rhanbarth ar y SDP ar yr un pryd ac yn gydweithredol.

3. Cydweithrediad 'Plus' gydag adolygiad unigol o LDP Pen-y-bont ar Ogwr gan weithio gyda RhCT (a LPAs eraill) ar yr un pryd yn paratoi sylfaen dystiolaeth ar y cyd ac hefyd gyda'r rhanbarth yn paratoi SDP.
4. LDP ar y cyd gyda RhCT a Caerffili gan weithio gyda'r rhanbarth yn paratoi SDP ar yr un pryd ac yn gydweithredol.
5. LDP ar y cyd gyda RhCT yn unig gan weithio gyda'r rhanbarth yn paratoi SDP ar yr un pryd ac yn gydweithredol.

Ystyriwyd pob un o'r opsiynau hyn yn fanwl yn yr adroddiad, gydag opsiwn 2 a 3 y rhai mwyaf manteisiol. Mae Opsiwn 3 – Cydweithrediad 'Plus' yn debygol i fod yr un mwyaf effeithiol o ran cost a chyfleustra, gyda LDP newydd mewn lle erbyn y dyddiad pwysig o 2021.

Serch hynny, mae risgiau sylweddol i Ben-y-bont ar Ogwr pe bai'n, fel y mae o dan Opsiwn 1, dod o flaen paratoi LDP, oherwydd byddai gwactod polisi yn debygol tu hwnt 2021 tan amser y byddai'r SDP yn cael ei fabwysiadau a gallu symud ymlaen o ddifrif fel LDP mewn drafft.

Yn debyg, awgrymodd opsiwn 4 a 5, sef LDPs ar y cyd, y lefel uchaf o risg o ran eu cyflwyno a chadw'r sylw cynllunio yn gyfredol.

Trafoda'r adroddiad pam roedd hi mor bwysig i Ben-y-bont ar Ogwr gadw'r sylw cynllun, yn ystyried diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd a'r angen i ddangos safleoedd newydd. Byddai cynllun newydd yn cynorthwyo â datblygu i'r lleoliadau iawn ac ni fyddem, fel Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cael ein gorchymyn gan y diwydiant datblygu, neu ddioddef gan 'cynllunio gan apelio', a ellid tanseilio unrhyw strategaeth datblygu dyfodol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ac hyd yn oed cyfeiriad dyfodol y SDP.

Ychwanegodd y Rheolwr Datblygu Grŵp yn bellach bod y swyddogion hefyd yn meddwl mai rôl y SDP yw rheoli materion traws-ffiniol yn effeithiol, a ddyfynnir gan yr Ysgrifennydd fel un o'r rhesymau sylfaenol am ymgymryd â chynlluniau ar y cyd yn hytrach na gweithredu LDPs isranbarthol ar y cyd.

Byddai'r dull a ddadleuir gan y Ysgrifennydd yn arwain at nifer o LDPs isranbarthol ar y cyd ar draws y rhanbarth, ond byddai'n cadw allan Caerdydd a Bro Morgannwg (mae eu cynlluniau wedi'u mabwysiadu yn ddiweddar) a Merthyr (mae gwaith yn mynd yn ei flaen o ran adolygiad LDP).

O ran y SDP, mae manteision economaidd a chymdeithasol amlwg o ran cael cynllun rhanbarthol mewn lle er mwyn rheoli a chyflwyno amcanion a dyheadau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR), gyda Phen-y-bont ar Ogwr yn rhan ohono. Mae'n hollbwysig felly bod Pen-y-bont yn cyfrannu i'r SDP yn ffurfio rhan o'r broses cynllunio strategol hon.

Mae swyddogion Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod mewn trafodaeth gyda chydweithwyr yn RhCT, Caerffili ac o fewn y rhanbarth. Mae consensws ar lefel swyddogion bod cefnogaeth gyffredin i gynhyrchu SDP, ond mae risgiau a chymhlethdodau sylweddol a dim awydd i symud ymlaen gyda LDPs ar y cyd.

Hefyd, ystyriodd arweinwyr ar draws y rhanbarth lythyrau'r Ysgrifennydd a dod i'r feddwl bod barn gyffredin i baratoi SDP, ond byddai LDP ar y cyd yn ymyrryd â'r gwaith pwysig hwn a dylai LPAs fod yn gallu symud ymlaen gyda LDPs unigol os oes angen. Ailadroddwyd y farn hon gan Bwrdd Gweithredu WLGA.

I grynhoi, ystyriwyd nad oes mantais o ran canlyniadau cynlluniau i ddilyn LDP ar y cyd gyda RhCT a Caerffili. Gall materion ynglŷn â rheoli adnoddau dal yn cael eu cyfeirio gan weithio yn gydweithredol gyda chymdogion a rhannu costau heb ddechrau ar gynllun ffurfiol ar y cyd. Mae SDP yn ffordd orau ar gyfer cyfeirio materion rhanbarthol a traws-ffiniol er dylai LPAs fod yn gallu symud ymlaen gyda LDPs eu hunain os oes angen mawr.

Cymeradwywyd y farn hon gan y WLGA, Arweinwyr CCR a Swyddogion Cynllunio proffesiynol yn rhanbarthol ac ar draws Cymru.

Cadarnhaodd un aelod mai un rownd o LDPs yn unig wedi digwydd ar draws Cymru, ac fel a ddangosir yng nghynigion diweddar NDM6635 a NDM6626 wedi'u pasio yn unfrydol gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae materion gyda datblygiadau newydd a fydd rhaid cael eu cyfeirio mewn unrhyw LDP dyfodol megis y tuedd i ddatblygiadau newydd i aros yn anorffenedig am nifer o flynyddoedd, mae prynwyr tai yn cael eu trapio gan gostau cynnal a chadw cynyddol, a nid yw'r datblygiadau wedi'u cynllunio yn cyd-fynd â'r gwasanaethau cyhoeddus sydd angen er mwyn eu gwneud yn gynaliadwy.

Teimlodd y byddai'n well i gadw'r LDP yn fewnol am y tro, a byddai'n well i gael ei ysgrifennu a'i ddylanwadu gan y bobl sydd yn y sefyllfa orau wedi dysgu'r gwersi rhain ac felly yn gwybod beth sydd wedi gweithio a beth sydd ddim wedi gweithio. Mae nifer o'r pryderon ar draws Cymru wedi deillio o'r ffaith bod y farchnad dai, ers y cwymp ariannol, nawr yn cael ei gorbwyso gan lai o gwmnïau eto sydd â safle cryf yn y farchnad.

Ychwanegodd fod y cwmnïau mawr hyn wedi bod yn pwyso ar gael llai o gyfyngiadau ar gynllunio, cytundebau S106 rhatach, a datblygiadau mwy a brisia yn uwch na datblygiadau llai. Roedd hefyd pryderon sylweddol am ansawdd yr adeiladau newydd y byddai mwy o gystadleuaeth yn y farchnad yn cyfeirio os oedd gennym LDP a fyddai'n rhannu datblygiadau i ddarnau rhwyddach y gallai datblygwyr bach yn cynnig amdani. Byddai cadw LDP yn fewnol yn caniatáu mwy o ddylanwad yn adlewyrchu anghenion Pen-y-bont ar Ogwr.

Hysbysodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau fod manteision cyfyngedig, yn ei farn e, ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr pe byddai LDP rhanbarthol yn cael ei weithredu gydag awdurdodau cyfagos, yn enwedig oherwydd byddai cynigion ar gyfer defnydd tir ar gyfer LDPs yn rhan o'r awdurdodau hyn yn wahanol i rai y BCBC. Ychwanegodd nad oedd gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili LDP mewn lle. Ychwanegodd y byddai goblygiadau eraill hefyd, a allai arwain i 'gwactod polisi' yn digwydd mewn unrhyw gynllun newydd o'r fath. Serch hynny, ychwanegodd iddo ystyried SDP yn gyfrwng gwell a fyddai'n gweithio, am y rhesymau a esbonnir yn yr adroddiad.

Gorffennodd yr Arweinydd ddadl am y eitem hwn, yn cynghori y gallai e weld bod cefnogaeth ar gyfer argymhellion yr adroddiad gan bob grŵp gwleidyddol, ac roedd yn galonogol gweld Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda One Voice, a bod pob awdurdod lleol yn Ne Ddwyrain Cymru o'r un farn ynglŷn â'r cynigion y SDP a LDP.

<u>WEDI'I DATRYS</u>: Mae'r Cyngor wedi:

(1) Cymeradwyo ymateb ffurfiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i'r Ysgrifennydd (Atodiad 1), a nodi cynnwys yr arfarniad opsiynau wedi'i atodi yn Atodiad 5 yr adroddiad
(2) Cymeradwyo ymatebion Cabinet Prifddinas Caerdydd ar y cyd a rhai'r WLGA i'r Ysgrifennydd (Atodiad 2 a 3 yr adroddiad)

(3) Awdurdodi Swyddogion y Cyngor i ddechrau paratoi'r SDP mewn cysylltiad â'r 10 Awdurdod Cynllunio Lleol (LPAs) ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, a
(4) Awdurdodi Swyddogion i symud ymlaen gyda'r adolygiad a newid LDP cyfredol Pen-y-bont ar Ogwr (gan weithio yn gydweithredol gyda LPAs eraill ar yr un pryd, ble bynnag y bo modd yn paratoi sylfaen dystiolaeth ar y cyd).

132. NEWID ARFAETHEDIG I FFIN Y BYRDDAU IECHYD – YMGYNGHORIAD: GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH YM MHEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles adroddiad yn:-

- Hysbysu'r Cyngor am weithio ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (ABMU) a sut mae hwn wedi helpu llunio gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol;
- Sicrhau bod Aelodau Etholedig yn ymwybodol o oblygiadau Bwrdd Iechyd ABMU ym Mhen-y-bont yn symud i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; a
- Ceisio caniatâd y Cyngor am ymateb ffurfiol y BCBC i Lywodraeth Cymru am y ddogfen ymgynghori, 'Gweithio'n Effeithiol mewn Partneriaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ynglŷn â'r newid arfaethedig i ffin y byrddau iechyd yn gosod y broses o wneud penderfyniadau ar draws gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol'.

Rhoddwyd cyflwyniad i'r adroddiad gan y Prif Weithredwr, ac ar ôl crynhoi rhai gwybodaeth gefndirol, cynghorodd fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ymgynghoriad ar ddiwedd llynedd fel a amlinellir ym mhwynt bwled 3 uchod, a gaewyd ar 7 Mawrth 2019, a atodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Cadarnhaodd fod y newid arfaethedig i ffin y byrddau iechyd a osodir yn y ymgynghoriad wedi'i ddatblygu, yn dilyn ymatebion i'r Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol – Cadernid ac Adnewyddiad'.

Esboniodd fod yr ymgynghoriad hwn wedi gofyn am farnau ar gynnig ynghylch trosglwyddo gwasanaethau gofal iechyd yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn lle ABMU, er mwyn gosod y broses o wneud penderfyniadau ar draws gwasanaethau iechyd a llywodraeth leol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod angen i wasanaethau cyhoeddus allu weithio gyda'n gilydd yn effeithiol er mwyn cwrdd ag anghenion a disgwyliadau pobl ac i ddiogelu'r canlyniadau gorau ar gyfer pobl yn lleol, rhanbarthol ac yng Nghymru. Er ni ddylai ffiniau fod yn rhwystr at gyflwyno'r canlyniadau sydd angen gan Cymru, gallai cymhlethdod diangen, yn enwedig o ran gwneud penderfyniadau, wneud hyn yn fwy anodd a chyfyngu ar gyfleoedd i wasanaethu'r cyhoedd yn well.

Cadarnhaodd wedyn mai bwriad y newid arfaethedig oedd i ddarparu eglurder a chysondeb ar gyfer arweiniad a phartneriaeth mwy effeithiol; yn cefnogi uchelgeisiau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'u partneriaid strategol yn cwrdd ag anghenion ein cymunedau.

Hysbysodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau y byddai Aelodau yn derbyn cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, yn esbonio sut maent yn gweithio ac integreiddio gydag awdurdodau lleol. Credodd fod hyn yn bwysig i gael rhyw synnwyr oddi wrthynt o ran beth maent yn gweld yn bwysig o ran gweithio yn gydweithredol.

Hysbysodd i'r Aelodau yn bellach y byddai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn rhoi cyflwyniad byr i'n hysbysu yn well ein hymateb i'r ymgynghoriad; yn rhoi syniad am beth yr ydym yn gweld yn bwysig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac i sicrhau bod ein hymateb i'r ymgynghoriad yn wybodus.

Rhoddwyd cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, gyda'r prif bwyslais ar atgrynhoi'r elfen gyd-destun gofal cymdeithasol; yn canolbwyntio ar y prif ardaloedd o integreiddio ar hyn o bryd gyda'r ABMU, ac i orffen y cyflwyniad gan bwysleisio blaenoriaethau dyfodol y Cyngor.

Yn dilyn diwedd y cyflwyniad, gofynnodd y Faeres am gwestiynau gan y blaid.

Gofynnodd un aelod os byddai Trosolwg a Chraffu yn chwarae rôl mewn unrhyw newidiadau pe ddylai'r newidiadau yn digwydd.

Ymatebodd yr Arweinydd y byddent yn chwarae rôl mewn unrhyw newidiadau unwaith y byddai'r ymgynghoriad yn dod i ben, ac unwaith y byddai'r dyfodol y Bwrdd Iechyd yn cael ei benderfynu.

Mewn ymateb i gwestiwn pellach, cadarnhaodd yr Arweinydd fod partneriaid lleol allweddol megis Heddlu De Cymru a'r Gwasanaeth Tân wedi ymgynghori ar y cynigion a'u bod yn eu cefnogi, fel a welwyd gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf a Merthyr hefyd. Yn amlwg, roedd ABMU yn siomedig, ond deallasant y rhesymau tu ôl cynigion Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Faeres os oedd y Gwasanaeth Ambiwlans wedi cael ei hysbysu am y cynnig.

Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oedd hyn wedi digwydd ond byddai e'n gwneud beth sydd angen gwneud i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu.

Gofynnodd un aelod am sicrwydd y byddai rhai gwasanaethau cymunedol iechyd lleol yn aros fel y maent yn dilyn unrhyw newidiadau, yn cyfeirio'n benodol at Ysbyty Cymunedol Maesteg.

Ymatebodd yr Arweinydd na fyddai'r gwasanaethau hyn yn cael eu heffeithio gan mai gweledigaeth Cwm Taf yw hi i ddarparu mwy o wasanaethau yn y gymuned, a ble bynnag y bo modd llai o gyfleusterau ysbytai cyfnod byr.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr fod Cwm Taf mewn sefyllfa ariannol gryfach na ABMU.

Nododd un aelod y byddai argaeledd gwasanaethau lleol, yn ôl pob tebyg, o leiaf mor dda pe byddai'r cynnig yn mynd ymlaen i ymuno â Chwm Taf. Serch hynny, gofynnodd hi os byddai gwasanaethau ar gyfer unigolion o bell yn cael eu peryglu pe byddai'r newid yn symud ymlaen, e.e. trosglwyddiadau preifat ayyb.

Sicrhaodd yr Arweinydd na fyddai unrhyw newidiadau neu doriadau i'r gwasanaeth hwn, a byddai'r bobl sydd angen y fath o ofal hwn, er enghraifft mewn awyrgylch ysbyty tu allan i ardal Pen-y-bont ar Ogwr, yn parhau i dderbyn hwn. Gorffennodd wrth ddweud nad oedd unrhyw gynigion i newid llifau cleifion ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| <u>WEDI'I DATRYS</u>: | Cymeradwywyd ymateb yr ymgynghoriad wedi'i hatodi yn Atodiad 2 yr adroddiad gan y Cyngor. Bydd y Cyngor yn aros am wybodaeth bellach yn dilyn cyhoeddiadau perthnasol Llywodraeth Cymru. |

133. CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2022

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad, yn gofyn am gymeradwyaeth Cyngor ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2018-2022, a ddangosir yn Atodiad A yr adroddiad.

Hysbysodd fod y Cynllun Corfforaethol arfaethedig yn gosod blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod a sonnir uchod, ac yn diffinio ymrwymiadau'r Cyngor ar gyfer 2018-2019.

Cyfeiriodd at baragraff 4.3 a gadarnhaodd fod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol y Cyngor wedi ystyried y cynllun drafft yn Ionawr 2018, a gwneud nifer o sylwadau adeiladol ac yn awgrymu newidiadau i'w cynnwys yn y cynllun. Casglwyd rhain, a ble bynnag y bo modd, gwnaethpwyd newidiadau i'r Cynllun, a dangoswyd esiamplau o'r rhain mewn ffurf pwynt bwled yn adran hon yr adroddiad.

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Cynllun yn cael ei gefnogi gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS), Cynlluniau Busnes y Gyfarwyddiaeth a Chynlluniau Gwasanaeth. Ychwanegodd y byddai blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r Cynllun yn cael eu hadolygu yn flynyddol, yn ystyried amgylchiadau newidiol ac unrhyw gynnydd a wneid, ac i sicrhau bod gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu cwrdd.

Cyfeiriodd wedyn at baragraff 4.9 yn yr adroddiad a'r tair 'Blaenoriaethau'r Cynllun' rhestredig, yn pwysleisio er nad yw rhain yn agored i'w newid (ond yn agored i'w adolygu), roedd ymrwymiadau'r Cynllun yn agored i'w newid, fel rheol yn flynyddol. Cafodd 'Blaenoriaethau'r Cynllun' gefnogaeth etholwyr y Bwrdeistref Sirol yn dilyn ymarfer ymgynghori a ddigwyddwyd yn 2017, yn gysylltiedig â dau ddarn o ddeddfwriaeth wahanol a drafodir uchod.

Cyfeiriodd un aelod at dudalen 97 'Y Cynllun a'r Nod' – i greu canolau trefi llwyddiannus. Gofynnodd sut y gallai'r nod hwn gael ei gyflawni os oedd cynnig yn rhan o'r MTFS, i gau toiledau cyhoeddus a lleihau rhai gwasanaethau bysiau i ganolau trefi ac ardaloedd eraill.

Ymatebodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio wrth ddweud nad oedd unrhywbeth wedi cael ei benderfynu yn iawn eto ynglŷn â'r dau gynnig uchod gan fod y broses ymgynghori ar gyfer y ddau yn digwydd ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd un aelod at dudalen 102 yn yr adroddiad a'r ddata cymharol o ran y nifer o eiddo gwag yn y 4 canol tref sy'n rhan o Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn cwestiynu cywirdeb y ddata hon.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod y darged ar gyfer 2016-17 a 2017-18 wedi bod yr un peth, ond pan dderbyniwyd a chasglwyd y ddata wirioneddol, roedd y cyfansymiau i gyd yn wahanol, yn benodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl. Hysbysodd i'r Cyngor y byddai'n syniad i'r ffigyrau wirioneddol gael eu cadw o'r flwyddyn gynt, yn y dyfodol, ar gyfer trosglwyddo'r balans i'r flwyddyn i ddod.

Roedd yr Aelod Cabinet – Cymunedau eisiau sôn bod y golwg i leihau'r nifer o wasanaethau bysiau nad yw'n benderfyniad a lywodraethir gan y Cyngor ynddo'i hun. Byddai'r Awdurdod yn ymgynghori am gymorthdaliadau gwasanaethau bysiau. Gorffennodd drwy ddweud y byddai'r cwmnïau a ddarperir gwasanaethau bysiau yn y bôn yn gwneud penderfyniadau am ddarpariaeth dyfodol y gwasanaethau hyn.

WEDI'I DATRYS: Cymeradwywyd a mabwysiadwyd Cynllun Corfforaethol Arfaethedig 2018-2022 gan y Cyngor.

134. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2018-19 I 2021-22 A THRETH CYNGOR 2018-19

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a'r Swyddog S151 dros dro adroddiad ar y cyd, yn gofyn am gymeradwyaeth Cyngor ar gyfer Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-19 i 2021-22, yn cynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2018-22, cyllideb refeniw ar gyfer 2018-19, a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017-18 i 2027-28.

Atodwyd y dogfennau canlynol i'r adroddiad:-

- Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod a sonnir uchod
- Atodiad A – Pwysau Cyllidol 2018-19
- Atodiad B – Cynigion Gostyngiadau Cyllideb 2018-19 i 2021-22
- Atodiad C – Ffioedd a Thaliadau 2018-19
- Atodiad D – Cyllideb yn ôl Dosbarthiad Gwasanaeth Ardal
- Atodiad E – Cyllidebau Cyfarwyddol Cyffredin yn ôl Blaenoriaeth Corfforaethol
- Atodiad F – Balansau a Chronfeydd
- Atodiad G – Rhaglen Gyfalaf MTFS 2017-2028
- Atodiad H – Strategaeth Reoli'r Drysorfa
- Atodiad I – MTFS EIA 2018-19
- Rhestr A – Ymateb y Cabinet i argymhellion Sgriwtini
- Rhestr B – Asesiad Risg Corfforaethol
- Rhestr C – Treth Cyngor 2018-19

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid dros dro grynodeb o'r adroddiad a'r atodiadau uchod er budd yr Aelodau, gan dynnu'r pwyntiau amlycaf o bob un rhan/adran.

Rhoddodd yr Arweinydd araith gyflwyno wedyn am y Gyllideb.
Rhoddodd ddiolch i'r Dirprwy Arweinydd, y tîm Rheoli Uwch a'r Aelodau i gyd ar gyfer datblygu'r cynigion. Cynghorodd fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithio yn wahanol i Gynghorau eraill ers nifer o flynyddoedd. Roedd Aelodau Meinciau Cefn o bleidiau gwleidyddol a grwpiau gwahanol, ers nifer o flynyddoedd, wedi ymgymryd â'r prif rôl yn datblygu'r gyllideb. Nid oedd eleni wedi bod yn wahanol, a rhoddodd ddiolch i Aelodau'r Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP), am ddadansoddi'r cynigion a gofyn cwestiynau a oedd yn anodd i'w hateb ar adegau, a herio popeth a ystyriwyd ganddynt. Roedd y broses o osod cyllideb a ddechreuodd yr haf diwethaf wedi bod yn adeiladol, cynhwysfawr a gonest, a rhoddodd ddiolch i'r Aelodau o bob grŵp gwleidyddol am gymryd rhan a'u cyfraniadau.

Roedd y Gyllideb yn her sylfaenol a fu rhaid i awdurdodau lleol wynebu bob blwyddyn, ac un sy'n dod yn anoddach bob blwyddyn, yn enwedig gyda darbodaeth ac ers dechrau'r dirwasgiad. Serch hynny, dyna oedd yr un her a wynebwyd bob awdurdod lleol Cymru.

Roedd pob Cyngor yng Nghymru wedi cynyddu ei Dreth Cyngor, ni waeth beth pa blaid wleidyddol oedd yn dal pŵer yn yr awdurdod penodol hwnnw, gyda'r cynnydd mwyaf o 12.5% yn Sir Benfro.

Nid oedd unrhyw awdurdod wedi cynnig cynyddu Treth Cyngor allan o ddewis. Roedd codiadau o'r fath yn cael eu gwneud gan nad oedd dewis arall cynaliadwy realistig. Roedd BCBC eisoes wedi arbed £35m a bydd angen iddynt arbed £32m ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod. Roedd 490 o bobl wedi cael ei diswyddo yn y Cyngor dros gyfnod o 4 mlynedd. Roedd y Cyngor yn fwy effeithiol nawr nag erioed ond byddai rhaid parhau i wneud toriadau i wasanaethau gwerthfawr o bwys i etholwyr a dyna oedd realiti y sefyllfa.

Roedd ond un ffordd realistig o weithredu ar gael i awdurdod lleol sef i gynyddu Treth Cyngor er mwyn ennill digon o gyllid i gynorthwyo â'r parhad o ddarparu gwasanaethau. Byddai rhaid i'r Cyngor ddatgan ei hunan wedi methdalu os na ddigwyddodd y codiad hwn fel a ddigwyddwyd yn achos Cyngor Sir Northamptonshire yn ddiweddar.

Roedd yn anodd i drigolion ddeall achos nid ydynt yn gweld neu wybod y gwasanaethau y mae eu teulu wedi bod yn dibynnu arnynt. Efallai nad ydynt yn sylweddoli mai £10,660 y flwyddyn yw'r cost o addysgu eu dau blentyn yn yr ysgol gynradd leol, neu £560 yr wythnos yw'r cost y mae'r Cyngor yn gorfod talu i edrych ar ôl eu mam-gu mewn cartref preswyl. Roedd y Cyngor yn cefnogi nifer uchaf o bobl hŷn mewn cartrefi a roedd gan y Cyngor nifer uchaf o ddisgyblion yn ei ysgolion cynradd.

Roedd ein rhaglen moderneiddio ysgolion yn ganolbwynt cynlluniau buddsoddi'r BCBC ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Byddai cyllideb heddiw yn cadarnhau'r cyllid ar gyfer ei ysgolion newydd wedi'i gynllunio ar gyfer Cwm Garw ac Ysgol Gynradd Pencoed, yn ogystal ag ysgolion eraill a fuddsoddwyd ynddynt cyn hyn. Byddai hefyd yn ein hymrwymo i £65m ar gyfer Band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a wthiodd £1m o gyllid ar gyfer pob £1m yr ydym yn ymrwymo at ddarparu lleoedd ar gyfer ysgolion cynradd newydd, cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, a'n hysgol arbennig hefyd.

Byddem hefyd yn gadael ein uned breswyl ym Mhen-y-bont ar Ogwr gael ei ail-ddatblygu, fel hwb gwasanaethau newydd ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal (LAC) mwyaf agored i newid.

Roedd Cyllideb heddiw hefyd yn hollbwysig oherwydd ei bod yn ymrwymo cyfraniad y Cyngor at ail-ddatblygu Neuadd y Dref Maesteg, at y gwaith adfywio yn safle Salt Lake ym Mhorthcawl, ac wrth gwrs at gynllun ynni dŵr pwll glo Caerau. Roedd yr uchod i gyd yn rhesymau pwysig iawn, gorffennodd yr Arweinydd, pam anogodd e Aelodau i gefnogi'r Gyllideb a oedd o'u blaen heddiw.

Hysbysodd y Dirprwy Arweinydd y byddai cyllideb heddiw yn gosod cyfeiriad y Cyngor ar gyfer y 4 mlynedd nesaf.

Canmolodd hyd yr ymgynghori am y Gyllideb gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, a'r ffaith bod 2,619 o gydadweithiau wedi digwydd gyda'r cyhoedd ynglŷn â ble feddylion nhw oedd yr ardaloedd gorau ar gyfer gwneud toriadau.

Dywedodd fod y Cyngor heddiw yn gosod cyllideb gros o £400m, gyda grantiau o Lywodraeth Cymru ac eraill yn dod yn tua £40m, yn golygu bod cyllideb net o £266m.

Daeth 18% o'r cyllid hwn, neu jest o dan £75m, o daliadau treth Cyngor, ble byddai'r cynnydd awgrymedig yn golygu cyfanswm o £1,395 y flwyddyn ar gyfer cartref Band D. Ychwanegodd y byddai'r derbynneb treth cyngor gyfan yn llai na'r gyllideb dirprwyedig Ysgolion o £88m. Byddai'r Cyngor yn bwriadu gwario mwy na £108m yn addysgu 20,000 o ddysgwyr.

Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at Wasanaethau Cymdeithasol wedyn, sef gwasanaeth sydd yn bennaf i gadw dinasyddion agored i newid yn ddiogel.

Roedd rhyw 5,000 o unigolion, ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn ddibynnol ar wasanaethau hanfodol i'w cadw yn ddiogel. Byddai'r Cyngor yn gwario bron £80m rhwng Gofal Cymdeithasol Oedolion a Gofal Cymdeithasol Plant. Byddai £26m ychwanegol yn cael ei gwario gan y Gyfarwyddiaeth Cymunedau ar gyfer gwaith megis casglu sbwriel, torri gwair a grudio'r priffyrdd.

Parhaodd gan ddweud y byddai'r Rhaglen Gyfalaf yn dod â buddsoddiad o ddegau o filiynau o bunnoedd drwy ddarparu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Band A, gyda buddsoddiad o filiynau o bunnoedd ar gyfer dau Gartref Gofal Ychwanegol newydd ar gyfer Porth y Cymoedd a Maesteg.

Byddai buddsoddiad o £5m hefyd ar osod wyneb newydd ar ffyrdd a phalmentydd ledled y fwrdeistref sirol, a £2.5m i osod goleuadau stryd LED mwy effeithlon.

Gorffennodd y Dirprwy Arweinydd y ddadl am yr eitem hon yn canmol y gyllideb i'r Cyngor.

Datganodd un aelod fod cyllid Cymru o Lywodraeth y DU yn £120 y person ar gyfer pob £100 a warir yn Lloegr. Roedd hi dal yn poeni bod Llywodraeth Llafur Cymru yn parhau i gyllido deddfwriaeth newydd yn aneffeithlon, gan gynnwys y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol, a stopio cyllid ar gyfer cynlluniau haeddiannol gan gynnwys grantiau gwisg ysgol, arian sydd wedyn yn dod â phwysau ychwanegol ar bobl weithgar Pen-y-bont ar Ogwr. Serch hynny, cefnogodd hi gynigion gwreiddiol a gweithredol a gynhwyswyd yn y gyllideb megis y Gŵyl Dysgu. Nododd fod £285k wedi cael ei glustnodi i gyllido Kier i gynyddu'r gwasanaeth ar gyfer cynhyrchion hylendid amsugnol bagiau porffor. Roedd swyddogion wedi gwrthod i adael y cytundeb gwastraff wedi'i adolygu gael ei weld gan Cynghorwyr, felly achos hynny roedd yn amhosib imi bleidleisio ar gyfer y Gyllideb oherwydd nad oedd aelodau Craffu yn deall a gwybod yn iawn sut fyddai arian pobl leol yn cael ei glustnodi. Er diffygion blaenorol yn gweithredu'r Cytundeb Gwastraff, mae trigolion wedi gweithio'n galed i wneud y cytundeb yn gweithio er iddynt gael eu gwobrwyo gyda chynnydd Treth Cyngor.

Pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cefnogaeth Gweithredol a Phartneriaeth nad oedd rhannu golwg y cytundeb wedi cael ei wrthod, a byddai e'n cwrdd â'r Pwyllgor Craffu i rannu hwn pe fyddai rhesymau rhesymol yn cael eu rhoi iddo i wneud hyn.

Mynegwyd pryder gan aelodau am y cynnig y byddai toriadau yn cael eu gwneud yn y nifer o doiledau cyhoeddus yn ogystal â'r nifer o wasanaethau bysiau a ni ddylai hyn ddigwydd. Teimlodd un aelod y dylai'r arbedion ar gyfer y pethau hyn yn cael eu cymryd gan wasanaethau eraill, er enghraifft, o gyllideb Addysg Ysgolion. Ni welwyd bod y syniad hwn yn cael ei gefnogi gan yr Arweinydd a rhai aelodau eraill.

Cefnogodd un aelod yr uchod, ond ni feddyliodd y dylai'r arbediad o £68k o gau toiledau cyhoeddus yn cael ei gymryd o gyllideb ysgolion. Ychwanegodd ei fod yn anhapus bod cynlluniau i leihau'r gyllideb hon yn bellach y flwyddyn nesaf, ond derbyniodd fod hyn yn rhywbeth i'w drafod ar ryw pwynt yn y dyfodol. Serch hynny, teimlodd efallai gallai cyllid yn cael ei ddarparu ar gyfer cadw toiledau cyhoeddus ar agor drwy'r Gronfa Gweithredu Cymunedol a glustnodwyd i Aelodau.

Ynghylch y cynnig i gau rhai toiledau cyhoeddus a lleihau gwasanaethau bysiau, esboniodd yr Aelod Cabinet fod y ddau ar gyfnod ymgynghori ar hyn o bryd, a byddai'r adborth a dderbynnid yn cael rhyw effaith ar y ddau gynnig hwn.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod hyn yn rhywbeth, e.e. y Gronfa Gweithredu Cymunedol dyfodol, y gallai drafod yn bellach gydag Arweinwyr Grŵp o bob parti mewn da bryd, er mwyn cadarnhau ble oeddynt wedi ymrwymo eu cyfran. Derbyniodd £5k a ymrwymwyd at ysgol gynradd leol er mwyn gosod ardal synhwyraidd ar gyfer plant ag ADY (ALN), a deimlodd fod yn ardal bwysig iawn i gyfrannu ynddi.

Cododd un aelod bryder am y toriadau parhaus a wnaethpwyd i'r gyllideb Cymunedau, ac roedd yr effaith o hyn yn cael ei gweld ar rai gwasanaethau ar y blaen.

Nododd un aelod fod dal angen wynebu rhai gorwario sylweddol (gweler rhan yn yr adroddiad yn esbonio symbolau goleuadau traffig 'Coch, Ambr, Gwyrdd' ar wariant), a gofyn am sicrwydd y byddai rhain yn cael eu wynebu fel rhan o'r gyllideb.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid dros dro y byddai rhain yn cael eu gweithredu drwy drefniadau cyfrifoldebau cryf a roddwyd mewn lle yn rhan o gyllideb y flwyddyn nesaf.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles fod gorwariant yn ei Chyfarwyddiaeth yn cael ei reoli gan Gynllun Ariannol Cyfarwyddol , a oedd yn ceisio sicrhau y byddai'r gorwariant a wnaethpwyd gan ei hadran hi yn cael ei ddatrys erbyn diwedd Mawrth 2018.

Nododd un aelod fod bwriad o fewn y cynigion cyllideb i wneud arbed o £30k mewn gostyngiadau awdit, lle byddai'r Uned hon yn edrych ar waith a gofynion

statudol yn unig. Ychwanegodd iddi obeithio drwy osod gostyngiad o'r fath, na fyddai hyn yn cyfaddawdu yn sicrhau bod ardaloedd o'r Cyngor yn perfformio i'r safonau gofynnol (yn enwedig mewn ardaloedd ble oedd elfen o risg). Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid dros dro fod yr arbediad arfaethedig yn yr ardal hon wedi'i asesu, ac ystyriwyd bod y maint o'r arbediad yn realistig a chyraeddadwy heb gael gormod o lefel uchel o risg. Ychwanegodd fod y gwasanaeth hefyd yn amodol ar archwilio allanol, a roedd Archwilio Mewnol, er iddynt weld bod recriwtio a chadw staff yn anodd, dal yn darparu gwasanaeth effeithiol ac yn effeithlon.

Symudwyd ac eiliwyd bod pleidlais wedi'i recordio yn cael ei chymryd ynglŷn â'r MTFS, ond roedd angen cael pleidlais electronig yn gyntaf i wneud yn siŵr bod consensws o Aelodau ar gyfer hyn.

Felly, cymerwyd pleidlais electronig. Gweler y canlyniad isod:-

| O blaid (pleidlais wedi'i recordio) | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| 47 | 0 | 0 |

Derbyniwyd y bleidlais i gael pleidlais wedi'i recordio gyda'r canlyniadau wedi'i rhestru isod.

| O blaid (argymhellion yr adroddiad) | Yn erbyn | Ymatal |
|---|---|---|
| Cynghorwyr:- | | |
| PA Davies | - | A Pucella |
| G Thomas | | L Walters |
| JH Tildesley MBE | | S Vidal |
| DBF White | | K Rowlands |
| N Burnett | | A Hussain |
| R Collins | | C Webster |
| P Davies | | T Giffard |
| J Gebbie | | M Voisey |
| RM Granville | | |
| S Baldwin | | |
| J Radcliffe | | |
| T Thomas | | |
| T Beedle | | |
| R Penhale-Thomas | | |
| DK Edwards | | |
| KJ Watts | | |
| A Williams | | |
| J Williams | | |
| R Shaw | | |
| G Howells | | |
| B Sedgebeer | | |
| JP Blundell | | |
| S Smith | | |
| M Jones | | |

S Dendy
AJ Williams
E Venables
JR McCarthy
M Kearn
D Lewis
JE Lewis
JC Spanswick
CA Green
S Aspey
PJ White
D Patel
HJ David
HM Williams
CE Smith
RE Young

40 8

WEDI'I DATRYS: Cymeradwywyd MTFS 2018-19 i 2021-22 gan y Cyngor , gan gynnwys cyllideb 2018-19, Rhaglen Gyfalaf 2017-18 i 2027-28 a Strategaeth Reoli'r Drysorfa. Yn benodol, cymeradwywyd yr elfennau penodol canlynol:-

- MTFS 2018-19 i 2021-22.
- Gofyn Cyllideb Net o £265,984,097 yn 2018-19
- Cyllidebau 2018-19 a glustnodir yn unol â Tabl 9 paragraff 3.3. yn yr adroddiad.
- Rhaglen Gyfalaf 2017-18 i 2027-28 (Atodiad G yn yr adroddiad).
- Strategaeth Reoli'r Drysorfa 2018-19 a Rheolaeth y Drysorfa a Chanllawiau Darbodus 2018-19 i 2021-22 (Atodiad H yn yr adroddiad).
- Treth Cyngor Band D ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o £1,395.51 ar gyfer 2018-19 (Tabl 11) a'r Treth Cyngor ar gyfer yr ardaloedd a amlinellir yn Adran 6 yr adroddiad.
- Ffioedd Treth Cyngor ar gyfer eiddo Band D yn 2018-19 ar gyfer bob un o'r ardaloedd cymunedol a amlinellir yn Nhabl 20 (o'r adroddiad).

135. MATERION BRYS

Dim.

136. GWAHARDD Y CYHOEDD

WEDI'I DATRYS: Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym Mharagraff 12, 14 a 16 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodiad 12A Deddf Llywodraeth Leol

1972 a ddiwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

137. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

WEDI'I DATRYS: Cymeradwywyd Cofnodion Eithriedig cyfarfod y Cyngor dyddiedig 31 Ionawr 2018 fel rhai cywir.

138. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I STRWYTHUR RHEOLI JNC

Daeth y cyfarfod i ben am 18:05